Y Perchennog/Meddiannydd
Stryd y Clwb
Aberaman
Aberdâr

**Gofynnwch Am/ Please Ask For:** Jarrod Cushion **Ffon/Telephone:**

**Fy Nghyf/ My Ref:** IF 192/JC **Fy Nghyf/ My Ref:** IF 192/JC **Fy Nghyf/ My Ref:** IF 192/JC

Annwyl Berchennog/Meddiannydd

**Stryd y Clwb Aberaman - Gwaharddiad Arfaethedig o Gyfyngiadau Aros**

Fel y gwyddoch, yn dilyn caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl newydd yn hen Ysgol Gyfun Blaengwawr yn Stryd y Clwb, mae'n ofynnol cyflwyno cyfyngiadau aros am resymau diogelwch ar y ffyrdd. Nod hyn yw mynd i'r afael â phryderon y byddai parcio yn Stryd y Clwb yn creu rhwystrau, yn amharu ar weledEdd ac yn cael effaith ar lif traffig.

Yn dilyn yr ymgynghoriad anffurfiol blaenorol, roedd yn amlwg bod trigolion lleol yn erbyn lleihau nifer y lleoedd parcio ar y stryd. Felly, mae cynigion wedi'u llunio i gyflwyno Cyfyngiadau Gwahardd Aros yn Stryd y Clwb Aberaman, Aberdâr, fel y nodir yn narluniau T2021/192/A a T2021/192/B. Mae'r cynigion diwygiedig yn cynnwys un llinell felen gyferbyn â Rhif 10-19 Stryd y Clwb, Aberaman, naill ai rhwng 8am a 6pm neu rhwng 8am a 10am ac eto wedyn rhwng 3pm a 6pm. Os ydych chi'n o blaid y cynigion diwygiedig, dilëwch naill ai Opsiwn A neu B fel sy'n briodol i nodi'r amserlen sydd orau gennych chi.

Mae'r manylion ynglŷn â'r cynlluniau arfaethedig yma i'w gweld yn y lluniau T2021/192/A a T2021/192/B . Mae modd gweld y llun ar y wefan hefyd - **www.rctcbc.gov.uk/traffig**

Rydw i wedi amgáu ffurflen ateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, efallai byddwch chi'n dymuno ymateb trwy e-bost: **gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk** Dylech chi gyflwyno sylwadau erbyn **08/10/2021**. Os na fydda i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

Er bod eich sylwadau'n bwysig i ni ac yn hanfodol i helpu'r Cyngor yn ei broses o wneud penderfyniadau, fydd materion eraill y tu allan i gylch gwaith y cynllun yma ddim yn cael eu hystyried. Fydd swyddogion ddim yn ymateb yn ffurfiol i'ch sylwadau yn ystod y cam yma o'r ymgynghoriad, ond yn hytrach yn ystyried unrhyw newidiadau dilys ar gyfer y cynnig cyn hysbysu'r cyhoedd.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth. Ond, pe hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

J. Cushion

Jarrod Cushion ,Technegydd Materion Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig

**Tŷ Sardis/Sardis House**
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Nigel Wheeler B.Sc(Hons)**
**Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

The Owner / Occupier
Club Street
Aberaman
Aberdare

RHONDDA CYNON TAF

**Gofynnwch Am/ Please Ask For:** Jarrod Cushion **Ffon/Telephone:**

**Fy Nghyf/ My Ref:** IF 192/JC **Eich Cyf/ Your Ref:** **Dyddiad/ Date:** 24/09/2021

Dear Owner/Occupier

**Club Street Aberaman - Proposed Prohibition of Waiting Restrictions**

As you are aware, following planning permission for a new residential development at the former Blaengwawr Comprehensive School in Club Street there is a requirement to introduce waiting restrictions for road safety reasons to address concerns that parking in Club Street would be obstructive, impair visibility and impact on traffic flow.

Following the previous informal consultation, it was clear local residents were against the reduction in on street parking. Therefore, proposals have been developed to introduce Prohibition of Waiting Restrictions in Club Street Aberaman Aberdare as indicated on Drawings T2021/192/A and T2021/192/B. The revised proposals include a single yellow line opposite No. 10-19 Club Street, Aberaman between either 8am-6pm or 8-10am and 3-6pm. If you support the revised proposals, please delete either Option A or B as appropriate to indicate your preferred timescale.

Details of the proposals are shown on the attached drawing T2021/192/A and T2021/192/B which may also be viewed at **www.rctcbc.gov.uk/traffic**

For your convenience, a pro forma and a postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively, you may wish to respond by e-mail with your address and contact details to **trafficservices@rctcbc.gov.uk** Responses should be returned with your observations by **08/10/2021** If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Whilst your comments are important to us and are essential in helping the Council in its decision-making process, other matters outside the remit of this scheme will not be considered. Officers will provide no formal response to your comments at this stage of the consultation, instead consider any valid changes for the proposal to take to public notice.

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me.

Yours faithfully

J. Cushion

Jarrod Cushion
Traffic Technician, Traffic Management